

**CYDRADDOLDEB
I FENYWOD NAWR:
Y SEFYLLFA
YNG NGHYMURU
HEDDIW AR DAI
= LLETY A MENYWOD
DIAMDDIFFYN**





RHAGAIR

Sefydlwyd RhCM Cymru yn 2010 i gynrychioli a chefnogi'r sefydliadau a'r unigolion niferus sy'n gweithio i wella hawliau menywod a hyrwyddo cydraddoldeb ledled Cymru.

Ers hynny, rydym wedi ennill presenoldeb ar lwyfan lleol a byd-eang, gan ddarparu llais unedig ar y materion sy'n bwysig i fenywod a merched yng Nghymru.

Rydyn ni'n dwy, fel menywod, wedi wynebu adfyd. Rydym wedi darganfod ein llais personol ac wedi magu'r hyder i arwain y ffordd ar gyfer dyfodol holl fenywod Cymru yn ein rôl fel Cyd-gadeiryddion. Ein gweledigaeth i fenywod a merched yng Nghymru yw cael llais ar faterion sy'n bwysig iddynt. I wneud hwn yn realiti, gwnaethom gomisiynu cyfres o sesiynau ymchwil friffio sy'n tynnu sylw at y materion lle'r oedd menywod yn teimlo yr effeithir arnynt fwyaf gan anghydraddoldeb.

Mae'r ymchwil hon yn rhoi cyfle am ddeialog uniongyrchol rhwng menywod a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghymru. Mae'n tynnu sylw at faterion anghydraddoldeb sy'n dal i fodoli yng Nghymru heddiw yn effeithiol, i ddod â hwy at flaen trafodaethau a galluogi newid.

Rydym yn rhagweld i'r gyfres barhau fel rhan hanfodol o waith RhCM i weithio'n barhaus i fynd i'r afael ag anghenion mwyaf amlwg menywod yng Nghymru.

Sarah Rees & Monika Borkowska

(Cyd-gadeiryddion, RhCM Cymru)





CYFLWYNIAD

Mae tai'n elfen allweddol o les. Mae Nodau Datblygu Cynaliadwy'r CU yn cynnwys dangosydd penodol sy'n ceisio sicrhau mynediad i dai digonol, diogel a fforddiadwy erbyn 2030.¹ Ar lefel genedlaethol, mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) Llywodraeth Cymru'n nodi y dylai anghenion grwpiau wedi'u diogelu (gan gynnwys menywod) fod wrth wraidd cyflwyno gwasanaethau tai.

Nod yr ymchwil friffio hon yw nodi ac archwilio rhai o'r materion allweddol mewn perthynas â thai i fenywod yng Nghymru. Mae tai'n faes cymhleth ac mae'r pwnc yn rhy eang i'w archwilio'n llawn yn yr ymchwil friffio gychwynnol hon, felly rydym wedi penderfynu canolbwyntio ar ddau o'r grwpiau menywod mwyaf diamddiffyn, y credwn eu bod mewn perygl o fod dan anfantais difrifol o ran gwasanaethau tai a llety:

- Menywod sy'n profi, neu sydd mewn perygl o brofi cam-drin yn y cartref;
- Menywod hŷn (aelwydydd menywod sengl 65+ oed yn bennaf).

Beth rydym yn ei wybod am fenywod a thai yng Nghymru?

Un o'r heriau cyntaf wrth ymchwilio i'r maes hwn yw'r diffyg data tai sydd wedi'i wahaniaethu yn ôl rhyw. Mae hyn yn creu bwlch gwybodaeth sylweddol. Ceir llawer o wybodaeth am anghenion a phroblemau tai, ond ychydig sy'n gwahanu'r tueddiadau i ddynion a menywod. Er enghraifft, "Nid yw data ar dderbynyddion Budd-dal Tai wedi'i wahaniaethu yn ôl rhyw ar gael ar gyfer Cymru'n unig".² Hoffem atgyfnerthu'r pwynt y byddai gwahaniaethu data tai'n gwella safon yr wybodaeth sydd ar gael am anghenion tai menywod.

Rydym yn gwybod bod cyfran y menywod sy'n byw mewn tai cymdeithasol yng Nghymru yn y mwyafrif, sef 54%.³ Mae nifer y tenantiaid benywaidd yn mynd yn fwy na dynion yn rheolaidd, gyda chynnydd dramatig yn y grŵp 70+ oed, amcangyfrif o 35,000 o denantiaid benywaidd o gymharu â 20,000 o denantiaid gwrywaidd.⁴

Rydym hefyd yn gwybod bod aelwydydd deiliaid perchnogion wedi disgyn ychydig, tra bod y sector rhentu preifat wedi dyblu dros y degawd diwethaf⁵, ond mae'r diffyg tystiolaeth ystadegol ac anecdotaidd y tu allan i'r sector tai cymdeithasol yn golygu mai darn bach yn unig o'r darlun a gawn. Ond mae'n bryderus bod gennym gyn lleied o wybodaeth am brofiadau menywod yn y sector rhentu preifat.



DUWYGIO LLES A CHREDYD CYNHWYSOL

Mae tai'n faes datganoledig yng Nghymru, ond nid yw lles a budd-daliadau. Gallai'r sefyllfa wleidyddol waethygu anawsterau a wynebier eisoes gan fenywod dan anfantais. Cododd ein hymchwil friffio flaenorol ar Dlodi a Thrais Economaidd (2015) y mater o Gredyd Cynhwysol. Mae Credyd Cynhwysol yn cynnwys yr holl fudd-daliadau a dderbynnir gan aelwyd a chaiff ei dalu'n fisol i gyfrif banc unigol a nodir. Pan gyflwynir Credyd Cynhwysol, disgwylir yn eang y bydd aelodau benywaidd y teulu'n gwneud y mwyaf o'r hawliau ar ran aelwydydd. Mae gan y polisi hwn oblygiadau anrymusol i fenywod.

Ychydig o ddata sydd ar gael ar gynllun peilot unigol Credyd Cynhwysol Cymru yn Nhorfaen, ac eithrio am y cynnydd yr adroddir amdano mewn ôl-ddyledion rhent.

Awgryma'r cynnydd hwn y gallai llawer o fenywod fod mewn anawsterau ariannol, a phan fyddwch yn ychwanegu cam-drin ariannol i'r darlun, bydd mwy o bryderon difrifol i'w hystyried.⁶

Roedd y mwyafrif o ymatebwyr i ymchwil y TUC ar gam-drin ariannol a diwygio lles yn "teimlo fel bod y newid yn dangos diffyg dealltwriaeth o drais ariannol ac yn debygol o gael effaith ddwys ar y rhai mewn sefyllfaoedd treisgar".⁷ Roedd cyfranogwyr yn yr astudiaeth yn unfrydol yn eu barn y byddai partneriaid gwrywaidd yn gofyn i daliadau fynd i'w cyfrifon hwy. Roedd pryderon allweddol yn cynnwys.

Roedd pryderon allweddol yn cynnwys:

- Byddai'r rhai sy'n cam-drin â rheolaeth lwyr dros swm sylweddol o fudd-dal incwm;
- Credwyd i'r newid hwn mewn trefniadau budd-daliadau fod yn debygol o arwain at fwy o broblemau ariannol a chynnydd mewn gwrthdaro rhwng cyplau.

Mae'r papur TUC hefyd yn nodi bod gwneuthyrwyr penderfyniadau Credyd Cynhwysol yn gallu rhannu taliadau mewn aelwydydd lle ceir cam-drin ariannol, ond dim ond os yw goroeswyr yn datgelu eu sefyllfa. O'r cyfranogwyr y gofynnwyd iddynt, "Nid oedd unrhyw un yn meddwl y byddent yn defnyddio trefniant o'r fath, oherwydd ofn yr ymateb".⁸

Mae'n werth nodi'r argymhellion gan y cyfranogwyr am newidiadau i Gredyd Cynhwysol. Nododd 60% "Y dylai elfennau o Gredyd Cynhwysol ar gyfer costau tai (rhent neu forgais) gael eu talu'n uniongyrchol i'r landlord neu'r benthycwr", gyda 59% yn cytuno, "Lle daw'r hawl gan deulu â phlant, dylai swm cyfan y Credyd Cynhwysol gael ei dalu i'r fam".⁹ Mae hyn yn awgrymu bod profiadau a barn menywod yn cael eu hanwybyddu i raddau helaeth gan wneuthyrwyr penderfyniadau sy'n parhau i eirioli ar gyfer system lle telir arian yn uniongyrchol i hawlwyd a ddylai "ddysgu i gyllidebu".



CAM-DRIN YN Y CARTREF A LLETY LLOCHES YNG NGHMRU

Rydym yn gwybod bod cam-drin yn y cartref yn rhoi plant a menywod mewn perygl o fod yn ddigartref.¹⁰ Mae Cymru'n arwain y ffordd ar gyfer y DU ac Ewrop gyda'r ddeddf arloesol Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, sy'n rhoi mwy o gyfrifoldeb ar awdurdodau cyhoeddus i nodi cam-drin yn y cartref a chyfeirio i wasanaethau arbenigol. Ond mae toriadau ac ansicrwydd ariannol yn rhoi'r gwasanaethau hyn dan bwysau. Yn ôl Cymorth i Ferched Cymru, y perygl mwyaf sy'n effeithio ar eu rhwydwaith lloches (27 o wasanaethau cefnogi cam-drin yn y cartref ledled Cymru) yw cynaladwyedd ac ariannu. Mae'r gwasanaethau hyn yn dibynnu ar grantiau gan yr awdurdod lleol. Yn ôl ymchwil Cymorth i Ferched Cymru 2015, ar gyfartaledd, mae gwasanaethau lloches yn wynebu toriadau o 12%, ond mae rhai'n wynebu cymaint â 70% o doriadau ar eu ffrydiau ariannu. Mae dros hanner y gwasanaethau lloches yng Nghymru'n wynebu toriadau arfaethedig neu a gadarnhawyd i wasanaethau yn y dyfodol.¹¹ Nid oes llawer yn gwybod faint o arian y byddant yn ei dderbyn o fis Mawrth 2016 oherwydd eu bod yn aros am wybodaeth gan eu hawdrudod lleol ar a fydd contractau'n mynd i dendr.

Mewn gwirionedd, mae'r toriadau hyn yn golygu colli lleoedd brys mewn gwelyau ac ystafelloedd teulu; gan roi bywydau menywod a phlant mewn perygl o bosib, os nad oes lle ganddynt wrth ffoi rhag trais. **Ceir perygl go iawn y gallai'r menywod a'r plant mwyaf diamddiffyn yng Nghymru gael eu gadael heb unrhyw le i ffoi, gan ddewis rhwng parhau mewn cartrefi treisgar neu fod yn ddigartrefedd.**

Yn ôl Cymorth i Ferched Cymru, tröwyd 284 o fenywod o wasanaethau lloches yng Nghymru y llynedd oherwydd diffyg lle.¹² Yn ôl The Wallich "Mae ein tîm ymyrraeth pobl sy'n

cysgu ar y stryd yn gweld mwy na dwbl y menywod yn cysgu ar strydoedd Caerdydd o gymharu â dwy flynedd yn ôl".¹³ Mae RhCM Cymru'n pryderu y gallai fod cyswllt rhwng y cynnydd hwn mewn digartrefedd a thoriadau i wasanaethau lloches. Gallai menywod fod yn cuddio'u hunain ar y strydoedd, gan roi eu hunain mewn perygl o ddiodef mwy o drais a cham-drin oherwydd nad yw arian ar gyfer gwasanaethau arbenigol yn cael ei chyfeirio i Gymru.

Mae San Steffan wedi dyrannu arian yn Lloegr i sicrhau y cynhelir lleoedd mewn llochesi yn Lloegr, gan wrthwneud blynyddoedd o gomisiynu lleol sydd wedi lleihau lleoedd yn y sector cam-drin yn y cartref. Ond mae cymhlethdod llywodraeth ddatganoledig yn golygu nad oes dyraniad cyfwerth yng Nghymru.¹⁴ Yn Natganiad yr Hydref 2015, addawodd George Osborne £15 miliwn o'r "Dreth Tampon" i elusennau menywod, gan chyfeirio at lochesi cam-drin yn y cartref. Rydym yn rhannu pryderon Cymorth i Ferched Cymru am ddefnyddio treth a delir gan fenywod i gefnogi gwasanaethau hanfodol i fenywod, ond hoffem wybod sut bydd yr arian hwn yn cael ei ddyrannu a'r hyn y gall ei wneud i leddfyr pwysau ar lochesi menywod yng Nghymru. Mae Cymorth i Ferched Cymru'n gofyn am gamau gweithredu, gan ofyn i Lywodraeth Cymru ymrwymo i system ariannu glustnodi sy'n darparu rhwydwaith cenedlaethol Cymru o wasanaethau llochesi sy'n achub bywyd â dyfodol cynaliadwy.

"Nid yw hwn yn fater menywod y dylai trethdalwyr benywaidd orfod talu am; mae trais yn erbyn menywod yn fater cydraddoldeb a hawliau dynol, ac mae'n bwysig i ddynion a chymunedau cyfan gyfrannu at y gwasanaethau ariannu hyn".¹⁵



MENYWOD HÛN A THAI YNG NGHYMRU

Mae poblogaeth hÛn Cymru'n cynyddu. Yn ein papur briffio 2015 Ar Amrywiaeth (2015), gwnaethom godi pryderon ynghylch y cynnydd sylweddol yn y menywod hÛn a disgwylir erbyn 2037¹⁶ (cynnydd amcangyfrifedig o 19.9% ym mhoblogaeth Cymru i 29.9%). Yng Nghymru, mae dau draean o bobl 75+ oed sy'n byw ar eu pennau eu hunain yn fenywod. Golyga hyn fod llawer o broblemau tai a llety'n debygol o gael effaith ar fywydau menywod hÛn yn hytrach na dynion. Rydym yn gwybod bod cyfran uwch o bensiynwyr senl yn byw mewn aelwydydd incwm isel nag unrhyw grŵp arall yn y gymdeithas¹⁸, a bod lefelau tlodi ac eithrio cymdeithasol yn uwch ymhlith menywod hÛn sy'n byw ar eu pennau eu hunain.¹⁹ Wrth i ni heneiddio yng Nghymru, rydym yn fwy tebygol o fyw ar ein pennau ein hunain ac mewn tlodi.

Menywod hÛn, tai a thlodi

Mae darpariaeth ofal wedi'i chysylltu'n agos â bywydau menywod hÛn. Mae menywod senl yn cynrychioli 62% o'r holl ddarpariaeth llety tai arbenigol yng Nghymru, ac mae 80% o'r unedau hyn wedi'u rhentu.²⁰ Mae llawer o fenywod am ddychwelyd i'w cartrefi ar ôl aros yn yr ysbyty yn hytrach na mynd i gartrefi gofal, ond mae'r Rhaglen Addasiadau Ymateb Brys (RRAP), sy'n gwneud addasiadau brys i gartrefi, ar gael i berchnogion cartrefi'n unig. Gallai hyn greu rhwystr i fenywod sy'n aros yn eu cartrefi wedi'u rhentu, neu eu peryglu wrth ddychwelyd i gartrefi nad ydynt yn addas i'r diben.

Pan fo menywod yn gorfod mynd i gartrefi gofal, ceir mwy o resymau i bryderu. Darparodd Comisiynydd Pobl HÛn Cymru adroddiad, A Place to Call Home (2014), dystiolaeth sy'n peri gofid fod bywyd mewn cartrefi gofal yng Nghymru'n aml yn amhleserus, gan ddisgrifio sawl amgylchedd fel "sefydliadol a chlinigol". Mae'r adroddiad yn parhau i ddisgrifio'r diffyg integreiddio cymdeithasol a chyfathrebu, yn enwedig i'r rhai sy'n dioddef o ddementia neu sy'n siaradwyr Cymraeg.²¹ Gan ystyried bod 2.8 menyw i bob dyn sy'n byw mewn cartrefi gofal²², rydym yn pryderu y gallai nifer uchel o fenywod yng Nghymru fod yn byw mewn amodau ofnadwy. Y cyfnod canolrifol o fynd i gartref gofal i farwolaeth yw 462 o ddiwrnodau (15 mis).²³ Oes rhyfedd bod menywod hÛn yn pryderu mynd i'r system ofal?

Menywod hÛn, dementia a thai

Mae'r cysylltiad rhwng tai, iechyd a chymunedau'n hanfodol i fenywod hÛn yng Nghymru. Tynnodd ymchwil RhCM 2013 â menywod hÛn sylw at nifer o achosion lle'r oedd iechyd ac ymdeimlad o gymuned menywod wedi'u haberthu, oherwydd does dim darpariaeth tai leol i ddiwallu eu hanghenion newidiol. Nid oes ystadegau ar gael i Gymru, ond dengys ymchwil y Gymdeithas Alzheimer fod dau draean o ddiodefwyr dementia yn y DU yn fenywod.²⁴



Mae pryderon am ddementia yn bwnc cyffredin i aelodau hŷn RhCM ar draws ein rhwydweithiau rhanbarthol. Nid ydym ar ein pennau ein hunain wrth weld hyn; yn ôl arolwg Age Cymru yn 2014 roedd 79% o'r menywod y gofynnwyd iddynt yn poeni am ddementia.²⁵ Oherwydd yr effeithir ar gyfran uwch o bobl hŷn sy'n byw mewn gofal preswyl gan ddementia nag unrhyw fath arall o dai yng Nghymru, ceir pryderon nad yw mathau eraill o dai'n addas i fenywod sy'n dioddef o ddementia.²⁶

Mae ymdeimlad o gymuned yn elfen bwysig i lawer o fenywod hŷn yng Nghymru. Mewn cyfarfod rhwydwaith rhanbarthol RhCM ym Merthyr yn 2015, dywedodd un fenyw hŷn ei bod ofn dementia, ac y byddai'n gorfod symud cartref am resymau iechyd a fyddai'n ei thynnu o'r gymuned ac yn golygu y byddai'n ynysig ac yn unig. Dyma bryder cyffredin. Awgryma dystiolaeth anecdotaidd nad yw menywod hŷn ar hyn o bryd yn teimlo bod eu hanghenion wrth wraidd dyluniad a chyflwyniad eu gwasanaethau tai. Credwn y byddai gwasanaethau tai'n manteisio drwy gynnwys mwy o fenywod hŷn mewn rolau gwneud penderfyniadau i sicrhau bod eu hanghenion a'u pryderon yn llunio dyluniad a chyflwyniad y gwasanaethau.²⁷

Argymelliadau

Mae'r papur briffio hwn yn archwilio rhai o'r materion i fenywod mewn perthynas â thai yng Nghymru, ond mae hefyd yn tynnu sylw at y diffyg data yn y maes hwn. Yn seiliedig ar yr hyn rydym wedi dod o hyd iddo, hoffai RhCM Cymru wneud yr argymhellion canlynol i bolisi tai a gwneuthyrwyr penderfyniadau:

- Dylai data tai gael ei wahaniaethu'n ôl rhyw gan wahanu'r tueddiadau i ddynion a menywod;
- Dylai arian cynaliadwy gael ei sicrhau ar gyfer darpariaeth lloches arbenigol i leihau'r perygl o fenywod a phlant yn dod yn ddiartref neu'n parhau i aros mewn cartrefi anniogel;
- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ffyrdd i leihau'r effaith negyddol ar y diwygiad lles mewn perthynas â thai;
- Rhaid i fwy o fenywod gael eu penodi mewn rolau gwneud penderfyniadau mewn polisi tai, dylunio a chynllunio, gan gynnwys menywod hŷn a goroeswyr cam-drin yn y cartref;
- Mae angen gwneud mwy o ymchwil a sefydlu corff cynrychioladol i fenywod sy'n byw yn y sector rhentu preifat i sicrhau y clywir eu hanghenion a'u pryderon gan y gwneuthyrwyr penderfyniadau a pholisïau.





BETH NESAF?



Sut rydym yn sicrhau bod anghenion menywod diamddiffyn wrth wraidd cyflwyno gwasanaethau tai yng Nghymru?



Beth sydd angen ei wneud i leihau'r risg o fenywod yn dod yn ddigartref neu'n aros mewn cartrefi anniogel o ganlyniad i gyni ariannol a diwygio lles?



Pa ymchwil y mae'n rhaid i ni ei wneud i gael mwy o wybodaeth am anghenion menywod yn y sector rhentu preifat?

¹ Gweler <https://sustainabledevelopment.un.org>

² WESG RhCM, Menywod a Diwygio Lles, 2013.

³ Data Cydraddoldeb ar gyfer Tenantiaid Tai Cymdeithasol, 2012. Ystadegau Cymru.

⁴ Data Cydraddoldeb ar gyfer Tenantiaid Tai Cymdeithasol, 2012. Ystadegau Cymru.

⁵ <https://stats.wales.gov.uk/Catalogue/Housing/Dwelling-Stock-Estimates/dwellingstockestimatespercentages-by-year-tenure>

⁶ Cymdeithas Tai Bron Afon yn adrodd gweld ôl-ddyledion yn cynyddu o £20,000 i £140,000. Gweler http://chcymru.org.uk/uploads/general/UC_Briefing_paper_2013.pdf

⁷ <https://www.tuc.org.uk/sites/default/files/UnequalTrappedControlled.pdf>, t. 45.

⁸ <https://www.tuc.org.uk/sites/default/files/UnequalTrappedControlled.pdf>, t. 46.

⁹ <https://www.tuc.org.uk/sites/default/files/UnequalTrappedControlled.pdf>, t. 51.

¹⁰ Prosiect AVA, Papur Briffio Cam-drin yn y Cartref a Thai (2011) <http://www.avaproject.org.uk/media/62315/idva%20policy%20briefing%20march.pdf>

¹¹ Arolwg aelodaeth Cymorth i Ferched Cymru 2015.

¹² Datganiad i'r Wasg gan Gymorth i Ferched Cymru: Cadw Llochesi, Achub Bywydau 2015.

¹³ The Wallich: Monitor Byw ar y Stryd Caerdydd 2015.

¹⁴ Ymateb WWA i fenywod a thai (RhCM Cymru 2015).

¹⁵ Ymateb WWA i Adolygiad Gwario 2015.

¹⁶ Data o Gyfrifiad Poblogaeth 2011.

¹⁷ Llywodraeth Cymru (2013) Y Strategaeth i Bobl Hŷn yng Nghymru 2013-2023.

¹⁸ Aelwydydd sy'n Is na'r Incwm Cyfartalog 2011/12, Adran Gwaith a Phensiynau, Mehefin 2013.

¹⁹ Pensiynwyr, tldi ac eithrio cymdeithasol, Patsios, D., Tldi ac eithrio cymdeithasol ym Mhrydain: arolwg y mileniwm. 2006.

²⁰ Tai i Bobl Hŷn yng Nghymru: Adolygiad o Dystiolaeth, 2015. Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru.

²¹ A Place to Call Home? Adolygiad i ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru.

²² Data'r cyfrifiad.

²³ Hyd arhosiadau mewn cartrefi gofal. Julien Forder a Jose-Luis Fernandez, Papur Trafodaeth PSSRU 2769, 2011.

²⁴ Dementia 2013, Llais cudd unigrwydd, y Gymdeithas Alzheimer.

²⁵ Tafflen Ffeithiau Bywyd Hŷn y DU, Age UK 2014.

²⁶ Tai i bobl hŷn yng Nghymru: Adolygiad o Dystiolaeth, 2015. Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru.

²⁷ ThMae Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru'n cynghori y dylai "pobl hŷn a'u gofawyr fod yn rhan o ddylunio a gwerthuso gwasanaethau tai a chefnogaeth i bobl hŷn yng Nghymru: Adolygiad o Dystiolaeth, 2015. Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru.